Llywodraeth Cymru
Welsh Government

20mya

# Daflen Ffeithiau Camwybodaeth



lynn
powered by behavioural science

lynn.global

# Tabl cynnwys.

**Cefndir.** 4
**Canllaw i'r Daflen Ffeithiau.** 4
**Chwalu Mythau.** 4
"20mya fydd terfyn cyflymder pob ffordd sy'n 30mya ar hyn o bryd" 4
"Ni fydd y terfynau 20mya yn cael eu gorfodi." 5
"Mae gostwng y terfyn cyflymder yn effeithio ar lif traffig yn andwyol." 5
"Mae'r polisi 20mya yn ddrud i'w roi ar waith. Byddai'n well gwario'r arian ar bolisïau eraill" 5
"Bydd gostwng cyflymder i 20mya yn difrodi fy nghar." 6
"Mae gyrru ar 20mya yn defnyddio mwy o danwydd." 6
"Bydd y terfyn 20mya yn cynyddu amser fy nhaith yn fawr." 7
"Mae cyflwyno terfyn 20mya yn wrth-geir." 7
"Bydd cyflwyno terfyn 20mya yn creu mwy o lygredd." 7
**Llyfryddiaeth.** 9

# Cefndir.

Ar 17 Medi 2023, bydd terfyn cyflymder o 20mya i yrwyr yn dod i rym ar 'ffyrdd cyfyngedig' ledled Cymru. Mae gan ffyrdd 'cyfyngedig' oleuadau stryd heb fod yn fwy na 200 llath oddi wrth ei gilydd. Maent fel arfer wedi'u lleoli mewn ardaloedd preswyl ac adeiledig gyda llawer o gerddwyr. Mae gwahaniaeth nodedig rhwng nodweddion terfyn cyflymder 20mya a pharth 20mya. Mae terfynau 20mya yn ardaloedd lle mae'r terfyn cyflymder wedi'i ostwng i 20mya, ond nid oes unrhyw fesurau ffisegol i leihau cyflymder cerbydau o fewn yr ardal. Mewn cyferbyniad, mae parthau 20mya yn defnyddio mesurau tawelu traffig i wneud y parthau'n hunan-orfodol.

# Canllaw i'r Daflen Ffeithiau.

Nod y Daflen Ffeithiau Camwybodaeth isod yw atal lledaeniad camwybodaeth a gwybodaeth anghywir drwy ddarparu dadansoddiad ar sail tystiolaeth o fythau cyffredin ynghylch cyflwyno terfynau cyflymder 20mya diofyn yng Nghymru. Bydd y ddogfen hon yn cael ei dosbarthu i Awdurdodau Lleol, rhanddeiliaid, partneriaid, a'r Cyfryngau i helpu i fynd i'r afael yn rhagweithiol â honiadau ffug neu ddi-sail a wneir am y polisi.

# Chwalu Mythau.

**"20mya fydd terfyn cyflymder pob ffordd sy'n 30mya ar hyn o bryd"**

**Dadansoddiad: Sbin (diffyg cyd-destun)**

Mae'r honiad hwn yn anwybyddu'r ffaith y bydd gan gynghorau reolaeth dros sicrhau bod y terfynau cyflymder yn cael eu gweithredu mewn ffordd sy'n gweithio i'w cyd-destun lleol.

**Bydd y ddeddfwriaeth yn newid y terfyn cyflymder diofyn ar ffyrdd cyfyngedig i 20mya, ond gall awdurdodau priffyrdd osod terfyn cyflymder uwch o 30mya.**

Mae gan ffyrdd 'cyfyngedig' oleuadau stryd heb fod yn fwy na 200 llath oddi wrth ei gilydd. Mae'r ffyrdd hyn fel arfer wedi'u lleoli mewn ardaloedd preswyl ac adeiledig gyda llawer o gerddwyr. Ar hyn o bryd, 30mya yw'r terfyn cyflymder diofyn ar gyfer y ffyrdd hyn, gydag unrhyw derfynau cyflymder eraill wedi'u harwyddo. Bydd y ddeddfwriaeth newydd yn gwneud y terfyn cyflymder diofyn ar y ffyrdd hyn yn 20mya.

Bydd awdurdodau lleol – a'r ddau asiant cefnffyrdd sy'n adnabod eu ffyrdd orau ac sydd yn y sefyllfa orau i ymgysylltu â chymunedau lleol – yn penderfynu pa ffyrdd ddylai aros ar gyflymder o 30mya, gan ddefnyddio Canllawiau Llywodraeth Cymru i'w helpu yn y broses. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi map ar MapDataCymru sy'n dangos pa ffyrdd fyddai'n aros ar 30mya. Dyma'r eithriadau i'r terfyn cyflymder diofyn o 20mya (am ragor o fanylion am y broses

eithriadau, ewch i wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r map hwn yn cael ei ddiweddaru wrth i wybodaeth leol ddod i'r amlwg.

**“Ni fydd y terfynau 20mya yn cael eu gorfodi.”**

**Dadansoddiad: Anghywir**

Mae'r honiad hwn yn dod i gasgliadau am orfodi heb dystiolaeth.

**Mae GanBwyll a heddluoedd Cymru yn cefnogi’r terfyn cyflymder 20mya cenedlaethol newydd yn llwyr, a byddant yn cyflawni gwaith gorfodi, fel y maent ar hyn o bryd ar gyfer pob terfyn cyflymder.**

Bydd cyfuniad o gerbydau gorfodi symudol a chamerâu sefydlog yn cael eu defnyddio i wneud ffyrdd yn fwy diogel i bob defnyddiwr. Bydd grwpiau Gwylio Cyflymder Cymunedol, Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru, a thimau plismona lleol, hefyd yn parhau i chwilio am gyfleoedd i ddarparu addysg ymyl ffordd i yrwyr sy'n mynd dros y terfyn cyflymder.

**“Mae gostwng y terfyn cyflymder yn effeithio ar lif traffig yn andwyol.”**

**Dadansoddiad: Di-sail**

Mae'r honiad hwn yn camliwio'r dystiolaeth bresennol.

**Gallai gostwng y terfyn cyflymder wella llif traffig mewn gwirionedd**.

Mae cyflwyno terfynau 20mya yn anelu at hyrwyddo amgylcheddau mwy diogel ar gyfer cerdded a beicio (a allai arwain at ostyngiad yn nifer y cerbydau sy'n gyrru ar y ffordd), gan wneud y traffig i lifo'n llyfnach o bosibl. Yn ogystal, gallai gyrru'n gyson ar gyflymder arafach yn hytrach na chyflymu neu arafu o gyflymder uwch, wella llif traffig.

Yn ogystal â hyn, mae tystiolaeth[1] o adroddiad Monitro a Gwerthuso interim cyntaf Trafnidiaeth Cymru yn dangos mai ychydig iawn o effaith y mae terfynau 20mya yn ei chael ar amseroedd teithio (mwy o wybodaeth o dan ‘Myth: Bydd y terfyn 20mya yn cynyddu amser fy nhaith yn fawr’).

**“Mae’r polisi 20mya yn ddrud i’w roi ar waith. Byddai’n well gwario’r arian ar bolisïau eraill”**

**Dadansoddiad: Sbin (diffyg cyd-destun)**

Mae'r honiad hwn yn dewis a dethol effeithiau a chostau'r polisi, heb roi'r darlun llawn.

**Mae’r polisi 20mya yn ymyriad cost-effeithiol sy’n achub bywydau, a gallai arbed hyd at £92 miliwn y flwyddyn.**

---

[1] Trafnidiaeth Cymru, *Adroddiad monitro interim Cam 1 terfyn cyflymder 20mya diofyn ar ffyrdd cyfyngedig*, (2022).

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod cyflwyno terfynau 20mya yn ymyriad cost-effeithiol. Yn 2001, canfu treial yn yr Alban o derfynau cyflymder 20mya ar 78 o safleoedd leihad mewn cyflymder ac anafiadau, gyda marwolaethau ac anafiadau difrifol yn gostwng o 20% i 14%. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod cyfyngiadau o'r fath yn cynnig opsiwn cost isel ar gyfer hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd[2]. Yn fwy diweddar yn Ne Canol Caeredin, canfu'r gwerthusiad peilot terfyn 20mya, yn dibynnu ar raddfa'r gweithredu, y gellid cyflwyno terfynau 20mya am 1/6ed o gost parthau 20mya traddodiadol[3].

Nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys mesurau arafu traffig (gan gynnwys rhwystrau cyflymder) – a all fel arfer fod yn fesur costus – fel rhan o'r newid i derfynau cyflymder. Nod y polisi yw lleihau sŵn ac allyriadau o gerbydau trwy alluogi llif cyson o draffig gan osgoi'r cyflymu ac arafu sy'n dod gyda mesurau tawelu traffig mwy ffisegol. Amcangyfrifodd astudiaeth iechyd cyhoeddus ddiweddar y gallai'r terfyn cyflymder diofyn o 20mya arwain at achub 6 i 10 o fywydau, yn ogystal ag osgoi 1200 i 2000 o farwolaethau, bob blwyddyn. Amcangyfrifir mai gwerth atal y marwolaethau hyn yw tua £92m y flwyddyn[4].

**"Bydd gostwng cyflymder i 20mya yn difrodi fy nghar."**

**Dadansoddiad: Di-sail**

Mae cerbydau modern wedi'u cynllunio i yrru ar gyflymder is heb niweidio'r injan na'r cydrannau. Dylai cyflymu hyd at gyflymder is o 20mya, a gyrru ar gyflymder mwy cyson, arwain at lai o wisgo teiars a brêcs, a hefyd helpu i ymestyn oes yr injan a'r blwch gêr. At hynny, mae terfynau cyflymder trefol 20mya a 30km/awr (18.5mya) wedi bod yn cael eu defnyddio ers dros ddau ddegawd ledled Ewrop.

**"Mae gyrru ar 20mya yn defnyddio mwy o danwydd."**

**Dadansoddiad: Sbin (diffyg cyd-destun)**

Mae'r honiad hwn yn camliwio'r dystiolaeth bresennol.

**Mae llawer o ffactorau yn dylanwadu ar y defnydd o danwydd, yn enwedig y ffordd rydym yn gyrru.**

Mae'r defnydd o danwydd yn cael ei ddylanwadu'n bennaf gan y ffordd rydym yn gyrru, mae gyrru ar gyflymder cyson yn well na stopio a chychwyn. Gall cyflymu hyd at 30mya gymryd dwywaith cymaint o egni â chyflymu i 20mya. Mewn astudiaeth gan NICE ar lygredd aer yn 2017, canfuwyd bod 'sicrhau bod modurwyr yn gyrru'n gyson ar y cyflymder gorau posibl yn gallu helpu i leihau gyrru 'stopio a chychwyn' a thrwy hynny wella'r defnydd o danwydd.'

---

[2] Burns, A., Johnstone, N., Macdonald, N., *20mph Speed Reduction Initiative,* (Scottish Executive Central Research Unit. Edinburgh, 2001).
[3] Davis, A., "*The state of the evidence on 20mph speed limits with regards to road safety, active travel and air pollution impacts", A Literature Review of the Evidence*, (2018).
[4] Jones, Sarah J, *Twenty miles per hour speed limits: a sustainable solution to public health problems in Wales*, 2017

**“Bydd y terfyn 20mya yn cynyddu amser fy nhaith yn fawr.”**

**Dadansoddiad: Anghywir**

Mae'r honiad hwn yn camliwio'r dystiolaeth bresennol.

**Dangoswyd nad yw newid o 30mya i 20mya ar ffyrdd cyfyngedig yn cael effaith sylweddol ar amseroedd teithio cyfartalog.**

Canfu adroddiad monitro cynnar diweddar gan yr wyth ardal gyntaf a gyflwynodd 20mya diofyn yng Nghymru mai ychydig iawn o effaith oedd ar amseroedd teithio. Gellir esbonio hyn gan y ffaith mai oedi wrth gyffyrdd a signalau sy'n pennu cyflymder cyffredinol pwynt-i-bwynt yn y rhan fwyaf o ardaloedd trefol yn hytrach na'r terfyn cyflymder ar y rhannau o'r ffyrdd rhyngddynt. Am y rhan fwyaf o’r diwrnod, mae’n beth prin i gerbydau mewn trefi a dinasoedd gyrraedd 30mya am fwy nag un neu ddau funud cyn iddynt gael eu harafu gan gerbydau’n ciwio neu oleuadau coch[5].

**“Mae cyflwyno terfyn 20mya yn wrth-geir.”**

**Dadansoddiad: Sbin**

Mae'r honiad hwn yn creu rhaniad ffug.

**Mae cyflwyno terfyn 20mya yn gwneud ffyrdd yn fwy diogel i holl ddefnyddwyr y ffyrdd a bydd yn achub bywydau.**

Nod cyflwyno 20mya yw gwneud y ffyrdd yn fwy diogel i holl ddefnyddwyr y ffyrdd gyda manteision posibl i ddefnyddwyr ceir. Mae’r rhain yn cynnwys llif traffig llyfnach (oherwydd llai o yrru stopio-cychwyn), amseroedd teithio byrrach (o lai o gerbydau ar y ffordd o ganlyniad i alluogi mwy o bobl i gerdded neu feicio’n ddiogel), a gostyngiad mewn gwrthdrawiadau drwy annog arferion gyrru mwy diogel.

Mae'r terfynau cyflymder yn y Rheoliadau Traffig Ffyrdd a Rheolau'r Ffordd Fawr yn berthnasol i bob cerbyd modur. Er nad yw'r rhain yn berthnasol i feiciau, mae Rheolau'r Ffordd Fawr yn nodi'n glir y dylai beicwyr fod yn ystyriol o ddefnyddwyr ffyrdd eraill.

Rydym ni, ar yr un pryd, eisiau gwneud strydoedd yn fwy diogel ar gyfer chwarae, cerdded a beicio, ac annog mwy o bobl i wneud dewisiadau teithio mwy cynaliadwy.

**“Bydd cyflwyno terfyn 20mya yn creu mwy o lygredd.”**

**Dadansoddiad: Di-sail**

Mae’r honiad hwn yn dod i gasgliadau am sgil-effeithiau’r polisi ac yn camliwio’r dystiolaeth bresennol.

[5] Tasglu 20mya Cymru, “Adroddiad Terfynol”, (2020) <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-07/adroddiad-grp-tasglu-20mya.pdf> [cyrchwyd 3 Chwefror 2023]

**Mae nifer o ffactorau sy'n cynyddu llygredd, ac mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad yw 20mya yn un ohonyn nhw**.

Canfu astudiaeth gan Imperial College[6] fod ardaloedd cyfyngedig 20mya yn “llygredd niwtral”. Mae nifer o bethau yn cyfrannu at lefelau llygredd. Mae’r rhain yn cynnwys:

- arddull gyrru
- cyflymu
- brecio
- cyflwr y cerbyd
- y pellter a deithiwyd
- tymheredd yr injan

Yn ogystal, bydd annog mwy o bobl i ddewis ffyrdd llesol o deithio, yn ei dro, yn arwain at lai o geir sy’n llygru ar y ffyrdd.

[6] Imperial College London - Centre for Transport Studies, “An evaluation of the estimated impacts on vehicle emissions of a 20mph speed restriction in central London” (2013) <https://www.bristol20mph.co.uk/wp-content/uploads/2016/06/speed-restriction-air-quality-report-2013-for-web.pdf> [cyrchwyd 25 Ebrill 2023]

# Llyfryddiaeth.

Burns, A, et al, *20mph speed reduction initiative*. Scottish Executive Central Research Unit. Edinburgh (2001).

Davis, A, "Cyflwr y dystiolaeth ar derfynau cyflymder 20mya o ran diogelwch ffyrdd, teithio llesol ac effeithiau llygredd aer: Adolygiad Llenyddiaeth o'r Dystiolaeth", Caerdydd: Llywodraeth Cymru, (2018).

Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Gorchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20mya) (Cymru) 2022, (2022) < https://senedd.cymru/media/nuldhyuh/sub-ld15187-em-w.pdf > [cyrchwyd 15 Chwefror 2023]

Imperial College London - Centre for Transport Studies, "An evaluation of the estimated impacts on vehicle emissions of a 20mph speed restriction in central London" (2013) <https://www.bristol20mph.co.uk/wp-content/uploads/2016/06/speed-restriction-air-quality-report-2013-for-web.pdf> [cyrchwyd 25 Ebrill 2023]

Jones, S., Brunt, H, "Twenty miles per hour speed limits: a sustainable solution to public health problems in Wales", *Journal of Epidemiology and Community Health*, 71: pp.699–706 (2017)

NICE, *Air pollution: Outdoor air quality and health.* NICE Guideline 70 nice.org.uk/guidance/ng70. London: NICE, (2017).

Trafnidiaeth Cymru, "Cam 1 terfyn cyflymder 20mya diofyn ar ffyrdd cyfyngedig" *Adroddiad monitro interim*, (2022) <https://trc.cymru/amdanom-ni/tryloywder/cyhoeddiadau/terfyn-cyflymder-20mya-diofyn> [cyrchwyd 3 Ebrill 2023]

"Tasglu 20mya Cymru, "Adroddiad Terfynol", (2020) <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-07/adroddiad-grp-tasglu-20mya.pdf> > [cyrchwyd 3 Chwefror 2023]

Llywodraeth Cymru
Welsh Government